



**Arfarniad Cynaliadwyedd  
Crynodeb Anhechnegol  
Cynllun Adnau  
Chwefror 2015**



**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Gwynedd & Môn**



**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**



# **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd**

## **Arfarniad Cynladwyedd (AC)**

### **Crynodeb Annhechnegol**

**Chwefror 2015**

## Cyflwyniad

- Y ddogfen hon yw crynodeb annhechnegol o'r Adroddiad Arfarniad Cynladwyedd (AC) o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (CDLI). Mae'n egluro'r modd yr ymgwymerwyd â'r arfarniad a sut mae'r broses wedi dylanwadu ar ddatblygiad y Cynllun Adnau.

## Cefndir

- Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn paratoi CDLI ar y Cyd newydd. Y mae'r gofyniad i bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn cael ei nodi yn Rhan 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol, 2004.
- Cynllun defnydd tir yw CDLI sydd yn amodol ar archwiliad annibynnol, a fydd yn ffurfio'r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal awdurdod lleol at ddibenion y Ddeddf. Mae'n cynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisiau ardal-eang ar gyfer mathau datblygu, dyraniad tir, a ble bo angen polisiau a chynigion ar gyfer ardaloedd alweddol o newid a gwarchodaeth. Caiff polisiau a dyraniadau eu nodi yn ddaearyddol ar y Map Cynigion sydd yn ffurfio rhan o'r cynllun.

## Arfarniad Cynladwyedd (AC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

- Mae Arfarnu Cynladwyedd i'r CDLI yn ofynnol o dan y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol, 2004. Mae AC yn ymdrin ag effeithiau cymdeithasol ac economaidd y CDLI ynghyd â rhai amgylcheddol.
- Yn ogystal â'r gofyniad i gwblhau AC o'r CDLI, dan Gyfarwydddeb Ewropeaidd 2001/42/EC, sy'n cael ei gweithredu yn y DU dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004, dylai Cynlluniau Datblygu Lleol hefyd fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Mae AAS yn broses i sicrhau bod yr effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sy'n deillio o gynlluniau a rhaglenni yn cael eu hadnabod, eu asesu, eu lliniaru, a'u cyfathrebu i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniadau ac yna'u monitro.

## Camau Allweddol a Thasgau yn y Broses AC

- Mae camau a thasgau allweddol y broses AC fel a ganlyn:
  - **Cam A** Gosod y cyddestun a sefydlu'r waelodlin a phenderfynu ar y cwrpas
  - **Cam B** Datblygu a mireinio opsiynau ac asesu effeithiau
  - **Cam C** Paratoi'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd
  - **Cam D** Ymgynghori a gwneud penderfyniadau
  - **Cam E** Monitro gweithrediad y cynllun neu'r rhaglen

- Bwriad cyffredinol yr AC yw adrodd ar y broses AC hyd yma a sut y mae wedi cyfarwyddo datblygiad y Cynllun Adnau. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gyfarwyddo a'i fireinio gan yr ymgynghoriad yng Ngham Sgopio (A) ac mae'n darparu gwybodaeth am:
  - y dulliau a ddefnyddiwyd yn ystod pob cam a phob elfen o'r gwaith o ddatblygu'r CDLI ar y Cyd,
  - nodweddion ardal y Cynllun Lleol a materion pwysig, gan gyflwyno'r amodau gwaelodlin a'r cyd-destun polisi, ynghyd â syniad o sut y gallai'r ardal ddatblygu heb y CDLI ar y Cyd.
  - y dewisiadau wrth lunio cynlluniau ac asesiad amgen yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS).
  - canfyddiadau'r AC o'r Hoff Strategaeth yn 2013;
  - canfyddiadau'r AC o'r Cynllun Adnau sy'n datblygu;
  - disgrifiad o'r mesurau monitro arfaethedig;

### Prif Faterion Cynladwyedd

- Mae'r materion cynladwyedd presennol a fydd yn effeithio ar Ardal y Cynllun wedi eu hadnabod trwy adolygiad o gynlluniau a rhaglenni a thrwy gasglu data gwaelodlin. Ceir crynodeb o'r materion hyn isod:

MAES Y PWNC	MATERION ALLWEDDOL
<b>Bioamrywiaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bygythiadau i gywirdeb a chysondeb nodweddion bioamrywiaeth</li> <li>• Yr angen i ddiogelu Coetiroedd Rhannol Naturiol</li> </ul>
<b>Cymunedau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Poblogaeth sy'n heneiddio</li> <li>• Allfudo gan bobl ifanc</li> <li>• Poblogaeth gymharol iach a diogel ond gydag amrywiadau'n amlwg o fewn ardal y CDLI ar y Cyd</li> <li>• Anghydraddoldebau amddifadedd cymdeithasol</li> </ul>
<b>Ffactorau Hinsoddol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal ansawdd aer da yn gyffredinol</li> <li>• Nwyon tŷ gwydr a bygythiad newid hinsawdd</li> </ul>
<b>Treftadaeth Ddiwylliannol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gostyngiad diweddar yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg</li> <li>• Treftadaeth ddiwylliannol ac amgylchedd hanesyddol cyfoethog ac amrywiol</li> </ul>
<b>Yr Economi</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) cymharol isel yn benodol yn Ynys Môn</li> <li>• Cyfradd gweithgarwch economaidd gymharol uchel</li> </ul>

MAES Y PWNC	MATERION ALLWEDDOL
	<p>yn ardal y CDLI ar y cyd ond diweithdra uwch na'r cyfartaledd yn Ynys Môn</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gostyngiad mewn diwydiannau'r tir</li> <li>Enillion llai na'r cyfartaledd</li> <li>Cyrhaeddiad addysgol</li> <li>Gwella'r diwydiant twristiaeth</li> </ul>
<b>Tai</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Amddifadedd tai yn benodol yng Ngwynedd</li> <li>Fforddiadwyedd a diffyg tai fforddiadwy</li> <li>Tai gwag ac ail gartrefi</li> </ul>
<b>Tirwedd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pwysau ar ddynodiadau tirwedd pwysig</li> </ul>
<b>Priddoedd, Mwynau a Gwastraff</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal dwysedd carbon priddoedd yng Ngwynedd</li> <li>Maint cyfyngedig o'r tir amaethyddol gorau a'r tir mwyaf amlbwrpas</li> <li>Twf mewn Gwastraff Bwrdeistrefol</li> <li>Lleihau dibyniaeth ar safleoedd tirlenwi</li> </ul>
<b>Trafnidiaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dewisiadau trafndiaeth cyfyngedig</li> <li>Dibyniaeth uchel ar gar preifat ar gyfer trafndiaeth</li> </ul>
<b>Dŵr</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal safon afonydd dda a gwella safonau ble bo angen</li> <li>Cynnal dyfroedd ymdrochi glân a gwella eraill</li> <li>Nifer o ardaloedd poblog wrth risg o orllo</li> <li>Llai o adnoddau dŵr ar gael</li> </ul>

### Amcanion a Dangosyddion Cynladwyedd

- Deilliant allweddol o'r Adroddiad Cwmpasu AC oedd datblygiad fframwaith arfarniad o amcanion arfaethedig, is-amcanion a dangosyddion a gaiff eu defnyddio i adnabod, disgrifio a gwerthuso effeithiau amgylcheddol positif a negatif cynllun. I gyd, mae 11 o amcanion AC arfaethedig sy'n ymdrin ag agweddau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd-gymdeithasol:

Amcan	Pynciau AAS
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal a mwyhau buddion bioamrywiaeth a chysylltedd</li> </ul>	Bioamrywiaeth, Fflora, Ffawna, Pridd
<ul style="list-style-type: none"> <li>Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol</li> </ul>	Iechyd bodau dynol, y boblogaeth
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu</li> </ul>	Ffactorau Hinsawdd, Aer

<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwarchod, hyrwyddo a mwyhau'r iaith Gymraeg</li> </ul>	Treftadaeth Ddiwylliannol
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwarchod, hyrwyddo a mwyhau adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol</li> </ul>	Treftadaeth Ddiwylliannol
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol</li> </ul>	Poblogaeth
<ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu tai o ansawdd da, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol</li> </ul>	Iechyd bodau dynol, y boblogaeth
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwerthfawrogi, cadw a mwyhau tirweddau gwledig a threfweddau trefol ardal y cynllun</li> </ul>	Tirwedd
<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff</li> </ul>	Asedau materol, pridd
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi a mwyhau cysylltiadau trafniadaeth da i gefnogi'r gymuned a'r economi</li> </ul>	Iechyd bodau dynol, y boblogaeth
<ul style="list-style-type: none"> <li>Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynladwyedd adnoddau dŵr ac isafu'r risg o lifogydd</li> </ul>	Dŵr, Bioamrywiaeth

## AC o'r Dewisiadau Amgen

### Opsionau Strategol

- Y cam nesaf yn y broses AC oedd cynnal asesiad o'r Dewisiadau Amgen o'r opsiynau strategol ar gyfer y strategaeth ofodol a ddatblygwyd ar gyfer y CDLI ar y Cyd.
- Nod cyffredinol y cam hwn o'r gwerthusiad oedd datblygu opsiynau'r cynllun a'u hasesu yn erbyn yr amcanion cynladwyedd er mwyn cyfarwyddo datblygiad y Strategaeth a Ffebrir yn y modd mwyaf cynaliadwy.
- Cyflwynwyd pum opsiwn gofodol ar gyfer CDLI ar y Cyd Môn a Gwynedd:
  - i) **Opsiwn D1** – Canolbwyntio ar Fangor a'r Prif Aneddiadau Allweddol
  - ii) **Opsiwn D2** – Canolbwyntio ar Fangor, y Prif Aneddiadau Allweddol a'r Brif Ardal Ffocws a'r Ail Ardal Ffocws a'u dalgylchoedd
  - iii) **Opsiwn D3** – Dosbarthiad Cymesur Trefol a Gwledig
  - iv) **Opsiwn D3** – Dosbarthiad Cymesur Trefol a Gwledig
  - v) **Opsiwn D4** – Canolbwyntio ar ddatblygiadau mawr raddfa gymysg

- Yn gyffredinol, dangosodd y gwerthusiad mai Opsiwn D3 oedd yr opsiwn mwyaf cynaliadwy, gan sgorio orau yn erbyn y rhan fwyaf o'r amcanion cynaliadwyedd. Mae dosbarthu datblygiad yn gymesur drwy holl ardal y Cynllun yn rhoi sylw i anghenion economaidd-gymdeithasol y boblogaeth drefol a gwledig, tra ar yr un pryd yn lleihau'r effaith bosibl ar yr amgylchedd oherwydd natur wasgareddig y datblygu.
- Nodwyd pedwar opsiwn twf hefyd ar gyfer y CDLI ar y Cyd:
  - i) **Opsiwn T1** – 'Dosraniad Isranbarthol'
  - ii) **Opsiwn T2** – 'Twf ar sail dueddiadau poblogaeth'
  - iii) **Opsiwn T3** – 'Tueddiadau adeiladu'
  - iv) **Opsiwn T4** – 'Twf ar sail economaidd yn unig'
- Ar y cyfan, roedd Opsiynau T1 a T3 yn darparu dull gweithredu mwy cytbwys o ran cynaliadwyedd nag opsiynau T2 a T4; fodd bynnag, fel y canfuwyd gydol yr arolwg, gellir lliniaru llawer o'r effeithiau negyddol (a ganfuwyd ar gyfer pob opsiwn, ond yn benodol ar gyfer Opsiwn T2) drwy bolisiau cryf yn y Cynllun Datblygu Lleol (e.e. ar dirwedd a bioamrywiaeth) a lleoli datblygiadau'n briodol.
- Ar sail canlyniadau'r broses ymgysylltu a'r broses AC, ystyriwyd y byddai'n gallach cynllunio ar gyfer ffigwr oedd yn caniatáu ar gyfer lefel dwf ychydig yn uwch na'r lefelau twf isaf (Opsiwn T3 a T4) ond y byddai Opsiwn T2 yn afrealistig ac yn anodd i'w ddarparu.
- O ganlyniad, datblygwyd lefel tyfiant hybrid /amgen (opsiwn twf canolig). Ystyriwyd fod yr opsiwn twf Canolig hwn yn fwy realistig ac yn fwy posibl i'w ddarparu. Mae'n darparu ar gyfer ac yn hwyluso twf yn yr economi leol, yn enwedig yn y sector ynni, ynghyd â thwf net mewn swyddi a chynnydd cysylltiedig yn y galw am dai a gwasanaethau.
- Mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ym Mai 2013, ac adolygiad o amgylchiadau lleol, adolygwyd y targedau tai. Fodd bynnag, ystyriwyd nad oedd y twf adeiladu diwygiedig ar gyfer yr ardal yn gwyro o'r opsiwn twf hybrid a gariwyd ymlaen yn 2012. Mae'r rhesymau dros ddewis a gwrthod opsiynau yn yr Hoff Strategaeth yn barhau i fod yn ddilys yng ngolau'r tystiolaeth newydd. O ganlyniad, nid oedd yn angenrheidiol ymgymeryd â gwaith arfarnu pellach.

### **Opsiynau Dynodiadau Safleoedd**

- Er mwyn canfod pa dir sydd ar gael er mwyn cwrdd ag anghenion datblygu Ynys Môn a Gwynedd, yn Hydref 2011, agorwyd Cofrestr Safleoedd Posib (CSB) yn ffurfiol, ble cynigiwyd i randdeiliaid, perchnogion tir a grwpiau eraill â diddordeb, i gyflwyno tir ar gyfer cael i gynnwys yn y CDLI. Cynigiwyd cyfanswm o 865 safle posib gyda 364 yng Ngwynedd a 501 yn Ynys Môn.
- Gwaredwyd y safleoedd hynny nad oedd yn bodloni'r meini prawf cyflwyno yn yn y gwaith hidlo cychwynol o'r safleoedd posib yn erbyn y fethodoleg a gytunwyd arni h.y. adnabuwyd hwy yn hollol anrealistic i'w datblygu, nid oeddent yn

cydymffurfio â pholisi rhyngwladol, cenedlaethol neu lleol, neu roedd ganddynt gyfyngiadau sylfaenol nad oedd yn bosib eu lliniaru. O ganlyniad, gwaredwyd 243 o safleoedd o'r broses asesu.

- Roedd yr holl opsiynau rhesymol a adnabuwyd drwy'r Broses a Methodoleg Safleoedd Posib y Cynghorau yn destun i AC

### **AC o'r Hoff Strategaeth (2013)**

- Ar y cyfan roedd y weledigaeth yn gydnaws â'r amcanion allweddol sydd wedi'u nodi yn y Fframwaith AC, ac mae'n darparu fframwaith strategol cadarn ar gyfer cyflawni cynaladwyedd tymor hir i economi, cymunedau ac amgylchedd Ynys Môn a Gwynedd.
- Dangosodd AC o'r amcanion fod mwyafrif yr Amcanion AC un ai'n gydnaws ag Amcanion y CDLI ar y Cyd, neu nad oedd perthynas rhyngddynt o gwbl. Dim ond nifer fechan o amcanion oedd o bosib yn anghydnaws â'i gilydd. Gwnaethpwyd diwygiadau bach i'r weledigaeth a'r amcanion strategol er mwyn gwella'u perfformiad cynaladwyedd.
- Cam nesaf o'r broses AC oedd ymgymeryd ag asesiad o bolisiau strategol y CDLI. Mae'r polisiau hyn yn strategol yn eu natur ac fe'u ffurfiwyd yn unol â gweledigaeth ac amcanion y CDLI, ac maent yn ffordd o gyflawni'r hoff strategaeth.
- Gwnaethpwyd diwygiadau bach i rai o'r polisiau er mwyn gwella eu perfformiad cynaladwyedd.

### **AC o'r Cynllun Adnau**

- Mae'r AC o'r Cynllun Adnau (gan gynnwys polisiau manwl) wedi ei strwythuro gan ddilyn 12 pwnc allweddol sydd wedi'u cysylltu ag Amcanion perthnasol yr AC yn ogystal â phynciau'r Gyfarwyddeb AAS. Mae'r arfarniad o bob un o'r pynciau hyn wedi'i rannu yn nifer o is-benawdau er mwyn sicrhau bod pob agwedd o'r CDLI ar y Cyd yn cael eu hystyried, yn cynnwys polisiau a dyraniadau safleoedd, yn ogystal â'r gydberthynas rhwng pynciau ac effeithiau cronus y Cynllun yn ei gyfanrwydd.
- Yn unol â Chyfarwyddeb a Rheoliadau'r AAS, mae unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol (gan gynnwys effeithiau synergol a chrynodol) yn cael eu nodi, ochr yn ochr ag unrhyw fesurau lliniaru sydd eu hangen i fynd i'r afael â hwy.

### **Ymgynghoriad**

- Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn ymgynghori ar yr Adroddiad Arfarniad gyfnod o 7 wythnos (rhwng 16/2/15 a 31/3/15). Bydd y Cynghorau yn



ymgyngori gyda Cadw a Chyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â budd-ddeiliaid allweddol eraill. Rydym hefyd yn croesawu barn y cyhoedd ar y ddogfen.

- Gellir gweld yr adroddiad yn llawn ar wefannau y Cyngorau ar [www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk) a [www.anglesey.gov.uk](http://www.anglesey.gov.uk) ac mae copïau ar gael o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad ar gael o'r un ffynhonnell.
- Y ffordd orau i wneud sylwadau yn ddiogel yw trwy'r porth genweud sylwadau yn: [www.gwynedd.gov.uk/cdli](http://www.gwynedd.gov.uk/cdli) neu [www.ynysmon.gov.uk/cdli](http://www.ynysmon.gov.uk/cdli) Yr unig ffordd arall o wneud sylwadau yw trwy ddefnyddio'r ffurflen sylwadau swyddogol.